



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Bro Teifi
Llandysul
Ceredigion
SA44 4JL**

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2019

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Ynglŷn ag Ysgol Bro Teifi

Mae Ysgol Bro Teifi yn ysgol ddwyieithog ar gyfer disgyblion 3-19 oed sy'n cael ei chynnal gan awdurdod lleol Ceredigion. Agorwyd yr ysgol fel Ysgol Bro Teifi ym mis Medi 2016 yn dilyn cyfuno Ysgol Gyfun Dyffryn Teifi gydag ysgolion cynradd Aberbanc, Pontsian, Coedybryn a Llandysul.

Ar hyn o bryd, mae 917 o ddisgyblion yn yr ysgol gyda 380 o oedran cynradd a 537 o oedran uwchradd, gyda 98 o'r rhain yn y chweched dosbarth. Mae'r ysgol yn gwasanaethu cymunedau Llandysul a'r fro.

Mae 8.3% o'r disgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim sydd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 16.4% ar gyfer ysgolion uwchradd ac 18% ar gyfer ysgolion cynradd. Nid oes unrhyw ddisgybl yn byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Nid oes yr un disgybl yn gymwys i dderbyn cefnogaeth i ddysgu Saesneg fel iaith ychwanegol a phrin iawn yw'r rhai sy'n dod o gefndir lleiafrif ethnig. Mae bron i 79% o ddisgyblion yn siarad Cymraeg yn rhugl a bron i 64% yn siarad Cymraeg yn y cartref. Mae gan 28.6% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 22.9%.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd yn 2015 ar gyfer agor yr ysgol yn 2016. Penodwyd dirprwy bennaeth, tri phennaeth cynorthwyol a rheolwr busnes yn 2016 i ffurfio'r uwch dîm arwain.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym>

Crynodeb

Mae Ysgol Bro Teifi yn gymuned gynhwysol iawn, hynod ofalgar a Chymreig. Yn greiddiol i'w gwaith mae ei darpariaeth arbennig ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad sy'n cydweddu ag arwyddair yr ysgol, 'oni heuir ni fedir'. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn eithriadol o dda gan ddangos parch a gofal at eraill ac arddangos agweddau cadarnhaol iawn at eu dysgu. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau cymdeithasol cryf iawn ac maent yn trafod materion a mynegi eu safbwyntiau yn hynod o aeddfed gydag iaith gyhyrog gwbl naturiol yn y Gymraeg. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn llwyddiannus o oedran cynnar iawn.

Mae gan athrawon adnabyddiaeth gadarn o allu a chefnidir y disgyblion sy'n arwain at berthynas waith dda. Mae ymagwedd flaengar ac arbrol gan yr ysgol o ran yr addysgu a datblygu'r cwricwlwm. Llwydda'r ysgol i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n ysgogi a herio disgyblion o bob oedran gan adlewyrchu natur Gymreig a gwledig yr ardal yn fedrus. Mae arweinwyr yr ysgol wedi mynd ati'n egniol i wireddu eu gweledigaeth sydd yn dylanwadu'n hynod o gadarnhaol ar safonau lles disgyblion a'u hagweddau at ddysgu.

Maes arolygu	Barn
Safonau	Da
Lles ac agweddau at ddysgu	Rhagorol
Addysgu a phrofiadau dysgu	Da
Gofal, cymorth ac arweiniad	Rhagorol
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Da

Argymhellion

- A1 Codi safonau bechgyn, yn enwedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 4
- A2 Sicrhau bod athrawon yn cynllunio'n fwy pwrpasol i ddiwallu anghenion pob disgybl
- A3 Sicrhau bod arweinwyr yn gwerthuso ansawdd yr addysgu yn ffiniog er mwyn adnabod meysydd penodol i'w gwella

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â lles ac agweddau disgyblion at eu dysgu, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

Prif ganfyddiadau

Safonau: Da

Ar fynediad i'r cyfnod sylfaen, mae tua hanner y disgyblion yn arddangos y medrau sy'n ddisgwyliedig o'u hoedran. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn gwneud cynnydd buan yn eu medrau cyfathrebu a phersonol erbyn diwedd y cyfnod sylfaen.

Mae bron pob disgybl trwy'r ysgol yn gwrando'n astud ar eu cyfoedion ac oedolion ac yn datblygu medrau siarad cryf. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn dangos mwynhad a diddordeb yn yr hyn sy'n cael ei ddweud, er enghraifft wrth wrando ar stori 'Pip y Pengwin Bach'. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn glir gydag iaith gyhyrog. Maent yn siarad yn frwdfrydig ac yn gwbl naturiol yn y Gymraeg. Maent yn barod iawn i sgwrsio ag oedolion a'u cyfoedion gan ddisgrifio'n fanwl yr hyn maent yn ei wneud. Mae llawer o ddisgyblion oedran uwchradd yn meddu ar eirfa eang ac maent yn hyderus wrth fynegi barn a chyflwyno dadleuon. Maent yn esbonio'u syniadau yn glir trwy ddefnyddio iaith naturiol ac idiomatig wrth drafod eu syniadau. Mae llawer yn defnyddio geirfa bynciol yn gywir, er enghraifft mewn addysg gorfforol wrth drafod dycnwch cardiofasgwlar. Erbyn y chweched dosbarth, mae bron pob disgybl yn siarad yn huawdl iawn.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn llwyddiannus o oedran cynnar iawn. Er enghraifft, yn y cyfnod sylfaen, maent yn darllen cyfarwyddiadau a dilyn rysâit ar gyfer gwneud 'cawl dinosor' yn ofalus a chywir. Mae llawer o ddisgyblion oedran cynradd yn darllen ar goedd â mynegiant ac yn dangos dealltwriaeth gadarn o'r hyn a ddarllenwyd yn y Gymraeg a Saesneg. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer yn defnyddio uwch fedrau darllen yn fedrus, er enghraifft wrth ddod i gasgliad am fywyd pobl yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Mae bron pob disgybl o oedran uwchradd yn darllen testun yn ofalus i gywain gwybodaeth er mwyn ateb cwestiynau neu gyflawni tasg. Mae llawer yn dilyn ac yn ymateb i gyfarwyddiadau yn frwdfrydig, er enghraifft i ddadansoddi dyfyniad allan o 'To Kill a Mockingbird' yn eu gwersi Saesneg. Mae llawer o'r disgyblion yn gallu sgimio a sganio testunau darllen amrywiol er mwyn canfod gwybodaeth a dehongli tystiolaeth. Mae ychydig o ddisgyblion yn arddangos medrau darllen cyfoethog iawn fel canfod ystyr mewn testun, er enghraifft wrth ymchwilio i hanes Merched Beca a'r Siartwyr.

Mae medrau ysgrifennu cynnar llawer o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn. Mae llawer o ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen yn ysgrifennu'n addas o fewn ystod briodol o ffurfiau ysgrifennu, er enghraifft wrth ysgrifennu hunanbortread ac adroddiad ar ragolygon y tywydd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau ysgrifennu y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn yn y Gymraeg a Saesneg. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn sillafu'n gywir, yn defnyddio geirfa liwgar ac yn atalnodi'n gyson. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n annibynnol ac at wahanol ddibenion yn effeithiol, er enghraifft yn Saesneg wrth ysgrifennu dyddiadur faciwî ac erthygl papur newydd ar beryglon plastig yn y Gymraeg.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion oedran cynradd yn cymhwyso eu medrau llythrennedd yn llwyddiannus ar draws meysydd eraill y cwricwlwm.

Yng nghyfnodau allweddol 3 a 4, mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig yn effeithiol i ystod o bwrpasau. Mae'r lleiafrif yn arddangos medrau ysgrifennu uwch ac yn esbonio'n fanwl fel y bo'n briodol at y diben a gyda chystrawen gadarn. Mae'r disgyblion mwy abl yn meddu ar eirfa gyfoethog ac idiomatig, er enghraifft mewn storïau arswyd gan ddisgyblion ym Mlwyddyn 9 sy'n cynnwys disgrifiadau bachog a gwreiddiol. Mae llawer o ddisgyblion yn ailddrafftio ac yn gwella eu gwaith yn effeithiol, pan fydd angen. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus yn eu defnydd o eirfa bynciol allweddol. Ar draws yr ysgol, nid yw cyflwyniad gwaith ysgrifenedig ychydig o ddisgyblion yn ddigon graenus.

Mae medrau rhifedd llawer o ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen yn datblygu'n gadarn. Mae disgyblion yn cyfrif yn hyderus i 10 o oedran cynnar iawn ac yn datblygu i weithio gyda rhifau i 100 a throsodd erbyn diwedd Blwyddyn 2. Mae'r rhan fwyaf yn hyderus wrth ddehongli data, trin arian ac adnabod siapiau. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf o ddisgyblion wedi adeiladu ar y cyfnod sylfaen ac yn defnyddio eu medrau mewn gweithgareddau mwy cymhleth, er enghraifft defnyddio fformwla mewn taenlen i gyfrifo cost ar gyfer parti ac wrth lunio a dehongli graff glawiad yng Ngwlad yr Iâ.

Mae llawer o ddisgyblion o oedran uwchradd yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn dda ar draws y pynciau. Er enghraifft, maent yn casglu data arbrofion, llunio graffiau priodol ac yn eu dehongli'n gywir mewn gwyddoniaeth. Yn eu gwersi daearyddiaeth, maent yn llunio graff gwasgariad i ddangos cryfder daeargrynfeydd mewn gwahanol wledydd a nifer y marwolaethau cysylltiedig. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos medrau cyfatebol i'w hoed a'u gallu wrth weithio ar ddatrys hafaliadau, cyfrifo a thrin theorem Pythagoras.

Ar y cyfan, mae medrau TGCh y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau'n hyderus i gefnogi eu dysgu ar draws y meysydd cwricwlaidd. Mae disgyblion o oedran cynradd yn hyderus iawn wrth ddefnyddio cyfrifiaduron a llechi i ganfod gwybodaeth a'i harddangos a'i dehongli mewn gwahanol ffurfiau. Enghraifft o hyn yw llawer o ddisgyblion Blwyddyn 5 yn defnyddio rhaglen bas data i ymchwilio a defnyddio gwybodaeth am y planedau yn llwyddiannus a'i defnyddio i lunio graffiau. Mae llawer yn cyfuno eu medrau TGCh a chreadigol yn llwyddiannus trwy greu a golygu clipiau ffilm, er enghraifft ar gyfer seremoni wobrwyo, 'Osgars Bro Teifi'.

Mae llawer o ddisgyblion oedran uwchradd yn defnyddio a chymhwyso rhaglenni yn llwyddiannus mewn pynciau ar draws y cwricwlwm i greu cyflwyniadau, dogfennau a gwaith cwrs. Mae hyn yn cynnwys plethu gwaith a grëwyd ar un rhaglen i mewn i eraill i greu gwaith cyfansawdd, er enghraifft wrth greu graffiau ar daenlen a'u hymgorffori mewn dogfen.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu eu medrau meddwl yn effeithiol. Er enghraifft i ddod i gasgliadau am y rhesymau dros y twf mewn niferoedd ymhlith pobl ifanc ddi-gartref o dan 25 oed neu wrth resymu pam y bydd gronynnau siwgr yn hydoddi ynghynt na chiwb o siwgr. Mae llawer o ddisgyblion yn arddangos medrau creadigol cryf yn y gwersi, er enghraifft wrth gynllunio a gwneud masg dinosor, perfformio fel grŵp offerynnol neu ddylunio tŷ adar mewn technoleg. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn effeithiol, er enghraifft yn datblygu eu

medrau echddygol i ddsbarthu pasta o wahanol liw neu'n gwella eu hymdrechion blaenorol mewn gweithgareddau ffitrwydd.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad yn y dangosydd lefel 2 sy'n cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg yn agos i'r hyn mewn ysgolion tebyg dros y ddwy flynedd diwethaf. Mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio yn uwch na'r hyn mewn ysgolion tebyg ers sefydlu'r ysgol.

Mae canran y disgyblion sy'n llwyddo i gyflawni pum gradd A*-A mewn TGAU neu gyfwerth yn well na'r hyn mewn ysgolion tebyg dros y ddwy flynedd diwethaf. Yn 2017, mae disgyblion wedi gwneud cynnydd sy'n well na'r disgwyl o gyfnod allweddol 2 i ddiwedd cyfnod allweddol 4 yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio. Nid yw'r cynnydd yn y trothwy lefel 2 gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg gystal â'r disgwyl.

Yn y chweched dosbarth, mae cyfran y disgyblion sy'n ennill tair gradd A*-C neu gyfwerth yn gyson uwch nag mewn ysgolion tebyg. Mae cyfran y disgyblion sy'n ennill tair gradd A*-A neu gyfwerth yn is nag ysgolion tebyg yn 2018, ar ôl bod yn uwch yn 2017. Mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau ehangach yn uwch nag ysgolion tebyg yn 2018, ar ôl bod yn is nag ysgolion tebyg yn 2017.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, mae perfformiad bechgyn yn 2018 yn is na chyfartaledd bechgyn mewn ysgolion tebyg mewn llawer o ddangosyddion. Mae perfformiad merched mewn llawer o ddangosyddion yn cymharu'n ffafriol gyda merched mewn ysgolion tebyg.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cryf yn erbyn eu targedau ar ddiwedd cyfnod allweddol 4.

Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae bron pob disgybl yn aros mewn addysg amser llawn neu hyfforddiant.

Mae pob disgybl yn dilyn cymhwyster Cymraeg iaith gyntaf ac mae'r rhan fwyaf yn llwyddo i ennill lefel 2 sydd ymhell uwchlaw cyfartaledd cenedlaethol. Mae pob disgybl yn dilyn cyrsiau ar draws y cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg ac mae llawer yn dewis dilyn cyrsiau trwy'r cyfrwng hwn yn y chweched dosbarth.

Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol

Mae ymddygiad bron pob disgybl yn arbennig o dda ac yn gryfder amlwg ar draws yr ysgol. Maent yn dangos lefelau uchel o barch tuag at ei gilydd ac at ymwelwyr. Mae ganddynt fedrau cymdeithasol cryf iawn ac maent yn trafod materion a mynegi eu safbwyntiau yn hynod o aeddfed â'i gilydd a chydag oedolion.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae bron pob disgybl yn canolbwyntio trwy gydol y wers ac yn dyfalbarhau pan fyddant yn cyflawni tasgau heriol. Mae llawer yn arddangos lefel uchel o ddycnwch wrth ddatrys problemau a chymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu, er enghraifft wrth i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ddylunio 'Bag am Byth Bro Teifi' drwy greu cynllun gwreiddiol. Mae bron pob disgybl yn arddangos agweddau ardderchog at eu dysgu, ac yn ddysgwyr brwd ac eiddgar. Maent yn meddu ar agweddau gofalgwr iawn tuag at ei gilydd a'u cymuned. Er enghraifft, mae disgyblion y chweched dosbarth yn cynorthwyo'r disgyblion iau fel 'bydis' yn ystod amser

chwarae. Maent yn cydweithio'n effeithiol a brwdfrydig mewn parau a grwpiau, er enghraifft wrth ail-greu golygfa oes y dinosoriaid yn y cyfnod sylfaen ac wrth lunio bwletin newyddion ar chwedl Branwen yng nghyfnod allweddol 3.

Mae bron pob disgybl yn ymfalchïo yn eu hysgol ac yn eu cymuned leol. Maent yn teimlo'n ddiogel iawn yn yr ysgol ac yn teimlo'n gwbl hyderus fod athrawon a staff eraill yn delio'n dda iawn gydag unrhyw broblemau all godi.

Nodwedd gref arall yw balchder y disgyblion yn eu hetifeddiaeth a'u treftadaeth. Mae bron pob disgybl yn falch o'u Cymreictod ac yn ymhyfrydu yn y ffaith eu bod yn medru siarad Cymraeg. Maent yn gwneud defnydd cyson o'r Gymraeg ac yn ei defnyddio yn eu bywyd pob dydd. Maent yn hyderus yn perfformio'n gyhoeddus yn y Gymraeg; er enghraifft, mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn cynnal cyngherddau mewn capeli a neuaddau lleol.

Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach. Maent yn manteisio ar ystod eang o gyfleoedd i gadw'n heini. Enghraifft dda o hyn yw bod bron pob disgybl oed cynradd yn cyflawni'r 'chwarter chwim', sef chwarter awr o weithgarwch ffitrwydd dyddiol. Mae hyn yn cyfrannu'n dda iawn tuag at godi lefelau ffitrwydd y disgyblion ynghyd â'u medrau cymdeithasol. Ar draws yr ysgol, mae cyfraddau uchel o ddisgyblion yn mynychu ystod o weithgareddau allgyrsiol, er enghraifft y clwb pêl-droed a chlwb dawnsio.

Mae bron pob disgybl yn weithgar wrth ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau ym mywyd yr ysgol. Mae 'Llais Bro Teifi' yn fforwm hynod effeithiol a threfnus i ddisgyblion fynegi barn. Maent yn cwrdd ac yn casglu barnau disgyblion yn rheolaidd. Yn ddiweddar, mae aelodau'r fforwm hwn wedi dylanwadu'n effeithiol iawn ar y penderfyniad i ostwng prisiau ffrwythau yn ffreutur yr ysgol er mwyn hybu bwyta'n iach. Mae llawer o ddisgyblion ynghlwm wrth gasglu rhoddion ac arian sylweddol tuag at elusennau lleol a chenedlaethol drwy weithgareddau megis golchi ceir, tawelwch noddedig a gwerthu cacennau. Mae'r holl weithgareddau hyn yn cyfrannu at ddatblygu disgyblion sydd yn ddinasyddion moesol a gwybodus.

Addysgu a phrofiadau dysgu: Da

Un o gryfderau amlwg yr addysgu yw adnabyddiaeth gadarn llawer o athrawon o'r disgyblion a'u cefndir sy'n arwain at berthynas weithio dda. Mae hyn yn meithrin parch ac yn sbarduno'r dysgu'n llwyddiannus. Mae'r berthynas gynhaliol hon yn cyfrannu at lefelau uchel o gymhelliant ac ymddygiad arbennig disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae rhan fwyaf o'r athrawon a'r staff cymorth dysgu yn modelu iaith o safon uchel ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau llafar y disgyblion. Yn yr ychydig achosion ble mae hyn ar ei orau, mae ffocws clir ar ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o'u cynefin lleol a digwyddiadau cyfoes. Enghraifft nodedig o hyn yw edrych ar arwyddocâd enwau cartrefi, ffermydd a chaeau lleol ac arwyddocâd murlun 'Cofiwch Tryweryn'.

Yn yr ychydig o enghreifftiau mwyaf effeithiol o addysgu, mae'r athrawon yn hoelio sylw disgyblion yn fedrus ac yn cynnal eu diddordeb drwy gyflwyniadau ysbrydoledig. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel iawn ac maent yn cynllunio'n fedrus i fodloni

anghenion pob disgybl. Maent yn meithrin medrau dysgu annibynnol y disgyblion yn llwyddiannus. Yn y sesiynau hyn, mae egni, brwdfrydedd a phersonoliaeth hynaws yr athrawon yn sicrhau awyrgylch dysgu cynhaliol a chynnydd da iawn.

Mae llawer o athrawon yn llwyddo i ennyn diddordeb disgyblion yn dda ac yn gwneud defnydd cyson o offer TGCh i hwyluso'u gwersi. Mae eu cyflwyniadau'n fyr ac i bwrpas, ac yn adeiladu'n llwyddiannus ar brofiadau blaenorol. Mae llawer o'r dosbarthiadau a'r manau cyhoeddus yn ysgogol a difyr ac yn cynnig awyrgylch lle gall yr holl ddisgyblion ddysgu'n gynhyrchiol.

Yn yr ychydig achosion lle nad yw'r addysgu mor effeithiol, nid yw disgwyliadau athrawon yn ddigon uchel ac, yn gyffredinol, nid yw'r gwaith wedi ei gynllunio'n ddigon pwrpasol i ymateb yn llawn i anghenion disgyblion. Mae'r athrawon yn gorddefnyddio taflenni gwaith ac yn rhoi gormod o gymorth sy'n cyfyngu ar gyfleoedd y disgyblion i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol ac i ysgrifennu'n estynedig.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhannu nod y wers gyda'r disgyblion yn gyson ac yn esbonio'r tasgau'n glir. Mae llawer yn cylchdroi o amgylch y dosbarth er mwyn sicrhau bod dealltwriaeth gadarn gan bron pob disgybl o'r hyn maent yn ei wneud. Maent yn defnyddio technegau holi amrywiol i ymestyn a datblygu ymhellach ymatebion disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r adborth llafar ac ysgrifenedig gan lawer o athrawon yn helpu disgyblion i wybod pa mor dda y maent yn gwneud a beth mae angen iddynt ei wneud i wella.

Llwydda'r ysgol i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n ysgogi a herio disgyblion o bob oedran gan adlewyrchu natur Gymreig a gwledig yr ardal yn fedrus. Mae pwyslais cadarn ar gynnig llwybrau dysgu pwrpasol i'r unigolyn gan gynnig amrediad o brofiadau cyfoethog ar draws yr ysgol.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen a gofynion y cwricwlwm wedi eu sefydlu'n llwyddiannus. Mae'r cyd-gynllunio gan ystyried barnau disgyblion, a gweithredu'r cynllunio ar lawr y dosbarth, yn sicrhau bod gofynion cwricwlwm y cyfnod sylfaen yn cael eu darparu'n llawn. Ar y cyfan, sicrheir cydbwysedd da rhwng gweithgareddau annibynnol a'r rhai sy'n cael eu harwain gan oedolyn. Mae mynediad cyson i'r ardal allanol ac mae'r disgyblion yn elwa o weithgareddau diddorol tu fewn a thu allan i'r dosbarth.

Mae ymagwedd flaengar ac arbrofol gan yr ysgol o ran datblygu'r cwricwlwm. Darperir profiadau ysgogol i'r disgyblion i ddatblygu eu medrau creadigol a medrau meddwl, er enghraifft yr heriau cyfoethog yn y cyfnod sylfaen, y sesiynau athroniaeth yng nghyfnod allweddol 2 a'r gwersi 'Mentrus' yng nghyfnod allweddol 3. Trwy'r rhain, mae disgyblion yn astudio materion fel effaith plastigion ar y moroedd ac yn creu gwaith creadigol yn seiliedig ar y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth sy'n diwallu anghenion disgyblion trwy amrediad addas o gyrsiau academiaidd a galwedigaethol sy'n eu paratoi'n effeithiol ar gyfer y dyfodol.

Mae'r ysgol yn darparu'n effeithiol ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion. Mae'r disgyblion mwyaf abl yn cael profiadau buddiol gan gynnwys gwersi ymestynnol gan athrawon uwchradd i ddisgyblion Blwyddyn 6 yn y Gymraeg, Saesneg a mathemateg. Mae'r ysgol yn trefnu ystod o ymyraethau priodol yn ôl anghenion llythrennedd a rhifedd disgyblion.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n fwriadus i ddatblygu'r medrau ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae cyfleoedd buddiol, cyfoes i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig ac i ddatblygu uwch fedrau darllen yn y Gymraeg a Saesneg. Mae cyfleoedd cynyddol a phwrpasol ar gyfer cymhwyso medrau TGCh disgyblion ar draws y meysydd dysgu i gefnogi dysgu drwy ymchwilio, dadansoddi data a chyflwyno gwybodaeth.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae Ysgol Bro Teifi yn gymuned gynhwysol iawn, hynod ofalgar a Chymreig. Yn greiddiol i'w gwaith mae ei darpariaeth arbennig ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad sy'n cydweddu ag arwyddair yr ysgol, 'oni heuir ni fedir'. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn eithriadol o dda gan ddangos parch a gofal at eraill ac arddangos agweddau cadarnhaol iawn at eu dysgu.

Mae gan yr ysgol systemau trylwyr a chyson i olrhain cynnydd academaidd, presenoldeb a lles disgyblion. Mae rhain yn caniatáu i'r ysgol ymateb yn chwim i gefnogi disgyblion sydd mewn perygl o dangyflawni ac ymyrryd yn syth er mwyn mynd i'r afael â'u gofynion unigol. Mae rhaglen gynhwysfawr hefyd o ymyraethau effeithiol er mwyn cefnogi disgyblion sydd â medrau sylfaenol gwan neu anghenion emosiynol, ymddygiadol neu gymdeithasol. Er enghraifft, amserlennir grwpiau cymdeithasol i ddisgyblion y cyfnod sylfaen a'r 'Clwb Cwtsh' i'r disgyblion iau i ddatblygu eu medrau cymdeithasol a phersonol. O fewn cyfnod cymharol fyr, mae'r disgyblion sydd wedi mynychu'r gefnogaeth hon wedi eu hailintegreiddio yn llawn i ddsbarthiadau prif ffrwd. Nid oes unrhyw waharddiadau dros dro na pharhaol wedi bod ers sefydlu'r ysgol.

Mae'r defnydd a wneir o'r Hafan, sef canolfan sy'n cynnal disgyblion bregus oedran uwchradd, yn allweddol er mwyn datblygu medrau bywyd y disgyblion hyn gan hybu hyder ac agweddau cadarnhaol at eu dysgu yn llwyddiannus. Mae'r ddarpariaeth hon, yn ogystal â chefnogaeth cwnselydd yr ysgol, yn hynod effeithiol i sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad llawn i'r cwricwlwm yn ogystal â sicrhau cymwysterau priodol.

Mae'r ddarpariaeth eang ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gryfder yn yr ysgol. Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i adnabod anghenion disgyblion yn gynnar ac i ddarparu ymyrraeth o ansawdd uchel ar draws yr ysgol. Cydweithia'r ysgol yn agos gydag amryfal asiantaethau allanol er mwyn cynnig cefnogaeth o'r ansawdd uchaf i'r disgyblion hyn. Caiff rhieni a gofalwyr eu cynnwys fel rhan o'r rhaglenni cefnogi megis 'Tîm o amgylch y teulu' sydd yn cyfnerthu'r berthynas â'r asiantaethau hyn. Trefnir hyfforddiant eang i staff ar ddulliau o gefnogi disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol or ran eu lles, ymddygiad a medrau cymdeithasol. Mae hyn oll yn cyfoethogi dealltwriaeth y staff o anghenion disgyblion unigol ac yn sicrhau bod rhain yn cael eu diwallu'n llwyddiannus. Mae'r ddarpariaeth gyfoethog yn sicrhau bod disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cadarn.

Mae gan yr ysgol berthynas agos â rhieni sydd yn seiliedig ar arferion cyfathrebu rheolaidd a chliir. Trefnir cyfres o weithdai buddiol iawn i rieni ymhob cyfnod o'r ysgol i gefnogi eu plant. Er enghraifft, mae cyfle wythnosol i rieni disgyblion y 'Clwb Cwtsh' gwrdd â'r staff a threfnir sesiynau hyfforddiant gwerthfawr ar y cwricwlwm. Mae gweithdai buddiol i rieni disgyblion oedran uwchradd ar ddulliau o gefnogi eu plant

wrth baratoi i wneud ceisiadau coleg a'r cam nesaf yn eu bywyd. Yn ogystal, caiff rhieni arweiniad effeithiol iawn yn y nosweithiau dewisiadau pynciau a'r llyfrynnau gwybodaeth cynhwysfawr.

Mae'r rhieni'n derbyn adroddiadau manwl am gynnydd eu disgyblion yn ogystal ag adroddiad olrhain cynnydd tymhorol i ddisgyblion oed uwchradd sydd yn rhoi darlun clir o ymroddiad a chyrhaeddiad disgyblion.

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn iawn, gan gynnwys posteri ac arddangosfeydd niferus o amgylch yr ysgol, ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed iach. Mae bar ffrwythau poblogaidd i ddisgyblion iau yr ysgol ac anogir disgyblion i ddod â byrbryd iach.

Mae llysgenhadon chwaraeon a'r swyddog '5x60' yn chwarae rhan allweddol drwy arwain rhaglen gynhwysfawr iawn o weithgareddau allgyrsiol o ansawdd uchel sydd yn sicrhau cyfleoedd helaeth i ddatblygu ffitrwydd y disgyblion. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o gystadlaethau chwaraeon yn erbyn ysgolion eraill yn ogystal â gweithgareddau amrywiol tu allan i'r oriau dysgu, er enghraifft clwb ffitrwydd merched a'r defnydd o fyrddau tenis bwrdd ar iard yr ysgol.

Mae'r ysgol yn cynllunio a darparu rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol o ansawdd uchel iawn sydd yn datblygu agweddau ysbrydol, moesol a chymdeithasol a diwylliannol yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 9 yn cael cyfle buddiol i ystyried a deall sut mae crefydd Islam yn dylanwadu ar bêl-droedwyr enwog.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd niferus i ddisgyblion gymryd rhan mewn perfformiadau cyson sydd yn meithrin hunanhyder disgyblion a'u gallu mynegiannol. Mae'r ysgol yn cynnig cyfle i ddisgyblion mewn sioeau blynyddol gystadlu yn eisteddfod yr ysgol a eisteddfod yr urdd yn ogystal â chymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned leol.

Mae arweinwyr yn ymddiried yng ngallu disgyblion i ysgwyddo cyfrifoldebau i ymgymryd â rolau arwain. Er enghraifft, mae disgyblion oedran cynradd yn cymryd cyfrifoldeb fel swyddogion sy'n gyfrifol am ailgylchu ac am hyrwyddo iaith gywir.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae gan y pennaeth ac aelodau'r tîm arwain weledigaeth glir ar gyfer Ysgol Bro Teifi i sicrhau safonau dysgu ac ansawdd addysgu o'r radd flaenaf er mwyn datblygu potensial pob disgybl yn llawn. Mae arweinwyr yr ysgol wedi mynd ati'n egniol i wireddu'r weledigaeth hon sydd yn dylanwadu'n hynod o gadarnhaol ar safonau lles disgyblion a'u hagweddau at ddysgu. Rhennir y weledigaeth hon yn effeithiol gyda'r rhanddeiliaid.

Mae gan y tîm arwain swyddogaethau priodol ac maent yn deall eu cyfrifoldebau yn dda. Mae llinellau atebolrwydd yn glir ac mae gan yr ysgol strwythur o gyfarfodydd cyson a rheolaidd. Ar y cyfan, mae'r cyfarfodydd hyn yn ymdrin yn briodol â

blaenoriaethau gwella'r ysgol. Maent yn cynnwys pwyntiau gweithredu defnyddiol sydd yn sicrhau dilyniant synhwyrol rhyngddynt.

Mae gan y rhan fwyaf o arweinwyr canol ymwybyddiaeth gadarn o'u meysydd cyfrifoldeb. Maent yn dadansoddi ac yn defnyddio data yn effeithiol ac yn defnyddio ffynonellau gwybodaeth eraill yn briodol er mwyn adnabod meysydd i'w gwella. Mae'r sylw cyson a roddir i safonau disgyblion wedi cyfrannu'n effeithiol at sicrhau deilliannau cadarn ar draws llawer o'r prif ddangosyddion perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Mae'r ysgol yn delio'n effeithiol ag unrhyw danberfformiad. Mae amcanion rheoli perfformiad yn cysylltu'n briodol â blaenoriaethau gwella'r ysgol ac yn arwain at gyfleoedd dysgu proffesiynol addas. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o'r amcanion yn ddigon miniog a mesuradwy i ddwyn aelodau o staff i gyfrif yn llawn.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn frwdfrydig ac yn gefnogol iawn i'r ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u cyfrifoldebau ac maent yn ymwneud yn uniongyrchol ag agweddau penodol ar waith bob dydd yr ysgol. Canlyniad hyn yw bod ganddynt ddealltwriaeth dda, ar y cyfan, o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella.

Mae'r ysgol yn hunanwerthuso yn glir a chywir gan gydnabod sefyllfa ddatblygol yr ysgol ar hyn o bryd. Mewn amser cymharol fyr, mae arweinwyr yr ysgol wedi sefydlu diwylliant o werthuso rheolaidd. Mae'r broses hunanwerthuso'n drylwyr ac yn gynhwysfawr. Mae'r broses yn ystyried ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol sy'n cael ei dadansoddi a'i harfarnu'n effeithiol gan arweinwyr ar bob lefel. Mae hyn wedi arwain at werthusiad cywir a chilir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd ar gyfer gwelliant. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau monitro bob amser yn canolbwyntio'n ddigon miniog ar ansawdd yr addysgu. Nid yw lleiafrif o arweinwyr yn talu digon o sylw i bwysigrwydd gwella addysgu er mwyn codi safonau ymhellach.

Mae cyswllt clir rhwng hunanwerthusiad yr ysgol a'r prosiectau gwelliant o fewn cynllun datblygu'r ysgol. Mae'r ysgol yn adnabod blaenoriaethau gwelliant pwrpasol, er enghraifft i godi safonau mathemateg a gwella perfformiad bechgyn ar ddiwedd cyfnod allweddol 4. Nodir camau gweithredu clir a mesuradwy sy'n cynnwys amserlenni penodol a chyfrifoldeb priodol ar gyfer eu datblygu a'u monitro. Mae'r broses yn gadarn ac yn dryloyw sydd wedi arwain at gydweithio effeithiol ymysg staff yr ysgol. Caiff camau gwelliant eu monitro'n rheolaidd gan arweinwyr yr ysgol er mwyn sicrhau cynnydd pwrpasol.

Mae arweinwyr wedi sefydlu diwylliant ble mae pwyslais clir ar ddatblygiad proffesiynol parhaus sydd wedi arwain at greu cymuned ddysgu effeithiol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod cyfleoedd cyfoethog i'r holl staff ehangu a mireinio eu gwybodaeth broffesiynol trwy raglen eang o weithgareddau hyfforddiant. Enghraifft lwyddiannus o hyn yw'r hyfforddiant i ymateb i anghenion unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion. Mae hyfforddiant mewnol yr ysgol ac ymrwymiad athrawon Blwyddyn 6 i gynllun ysgolion creadigol wedi arwain at greu hinsawdd o ddysgu ac addysgu mentrus.

Mae trafodaethau proffesiynol buddiol wedi arwain at sefydlu prosesau cadarn i sicrhau ymddygiad da ymhlith y disgyblion a chreu ethos o barch o fewn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn defnyddio staff yn bwrpasol i addysgu ar draws cyfnodau allweddol er mwyn rhannu arbenigeddau a dysgu oddi wrth ei gilydd, er enghraifft mewn meysydd fel gwyddoniaeth, addysg gorfforol a chymhwysedd digidol. Mae hyn wedi dylanwadu'n gryf ar greu ethos o gydweithio a'r ymdeimlad o ddilyniant a pharhad o fewn ysgol bob oed.

Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau'r ysgol yn ofalus iawn ac yn sicrhau bod cysylltiad agos iawn rhwng penderfyniadau gwariant a'r blaenoriaethau gwella strategol. Maent yn monitro'r ddarpariaeth yn fanwl er mwyn sicrhau effaith gadarnhaol ar fywyd yr ysgol a lles disgyblion. Gwneir defnydd buddiol o grantiau er mwyn hyrwyddo cynnydd a goresgyn rhwystrau rhag dysgu i ddisgyblion bregus yr ysgol.

Copiâu o'r adroddiad

Mae copiâu o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

Rhagorol	Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
Da	Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau
Digonol ac angen gwelliant	Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella
Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys	Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/04/2019